Croeso i fyfyrdod yr wythnos. Os mai dyma'r tro cyntaf i chi fod yma, neu os ydych wedi bod o'r blaen, rydym yn gobeithio eich calonogi wrth i ni fynd drwy'r cyfnod rhyfedd hwn gyda'n gilydd. Mae patrwm bywyd i'r rhan fwyaf ohonom wedi gorfod newid cryn dipyn yn ystod y misoedd hyn, ac er fod pethau'n rhyddhau ychydig, mae'r dyfodol yn ansicr, a phob un ohonom yn ceisio dyfalu beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf. Yn y Brifysgol yn enwedig mae cwestiynau am faint o fyfyrwyr ddaw yma'r tymor nesaf, beth mae hyn yn ei olygu i'r gwahanol adrannau, ac wrth gwrs sut fydd hyn yn effeithio'n ariannol ar yr holl sefydliad. Mae hyn ar ben unrhyw bryderon sydd gennym am iechyd, gofal plant, teulu a hyd yn oed y gair ofnadwy hwnnw – Brexit.

Rŵan, un peth mae'r flwyddyn hon wedi ein gorfodi i feddwl amdano yw ein persbectif, a gwneud i ni ystyried beth sy'n bwysig yn ein bywyd. Rwyf fi'n dod o bersbectif Cristnogol, ac efallai byddai rhai am ofyn – Ble mae Duw yn y pandemig, a beth yn y byd mae O'n ei wneud drwy hyn i gyd? Byddai rhai efallai yn dweud fod y problemau rydym yn eu wynebu yn ddigon o brawf naill ai nad ydyw'n bod, neu ei fod yn dduw diffygiol a gwan iawn, yn methu rheoli ei fydysawd, neu'n waeth fyth ei fod yn dduw nad yw'n malio amdanom o gwbl. Os yw yn hollalluog, pam nad yw'n rhoi terfyn ar yr holl boen?

Ond mae yna bersbectif gwahanol. Fe wyddom fod poen yn gallu bod yn beth gwerthfawr iawn ar adegau. Mae'n gallu dod fel rhybudd fod rhywbeth o'i le. Os rhof fy mys mewn fflam, fe fydd poen yn fy rhybuddio fod angen i mi ei dynnu oddi yno'n reit sydyn. Os ydw i'n teimlo poen yn fy nannedd neu ryw ran arall o fy nghorff, yna fe wn fod angen i mi fynd i weld y deintydd neu'r meddyg.

Rŵan mae Duw'r Beibl yn un sy'n siarad – fe lefarodd y bydysawd i fodolaeth ar ddechrau amser, ac mae'n siarad yn gyson â'r ddynoliaeth. Ond beth os nad ydym am wrando? Gallwn lenwi ein bywydau â phrysurdeb ac anghofio ystyried pwy neu beth ydym. Felly mae Duw weithiau yn dweud wrthym, fel y dywedodd wrth y Salmydd "Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw"

Fe ysgrifennodd yr ysgolhaig C.S.Lewis sy'n fwyaf enwog mae'n debyg fel awdur cyfres llyfrau Narnia "Mae poen yn mynnu ein sylw. Mae Duw yn sibrwd wrthym yn ein pleserau, yn siarad â ni yn ein cydwybod, ond yn bloeddio arnom yn ein poenau. Dyma ei fegaffon i ddeffro byd byddar."

Ydi hynny'n swnio ychydig yn greulon? Fe fyddai, oni bai ein bod wedi gweld Duw yn mentro i mewn i'r byd hwn a rhannu yn ei ddioddefaint yn ei Fab, yr Arglwydd Iesu Grist. Fe gerddodd Iesu ar y ddaear hon, gan bori poen a dioddefaint ei hunan. Yn y pen draw profodd y dioddefaint eithaf, wrth wynebu marwolaeth greulon ar groes Rufeinig – marwolaeth y mae Cristnogion yn gredu sy'n allwedd i iachau ein perthynas â Duw ei hun. Tydi'r Duw hwn ddim yn unben sy'n eistedd yn ei nefoedd, a phan na fyddwn yn rhoi sylw iddo mae'n creu trafferth er mwyn i ni droi ato. Mae hwn yn Dduw sydd â gofal drosom, ac sydd am i ni brofi llawenydd anhraethadwy drwy gael perthynas fyw ag o ei hun. Ac er mwyn cyflawni hyn fe roddodd ei Fab fel un fyddai'n iachau ein perthynas â'r Tad drwy ei aberth ei hun.

Felly p'un ai ydych yn ddilynwr i Iesu ai peidio, beth am gymryd amser yr wythnos hon i feddwl eto sut wynebodd Iesu drafferthion a thywyllwch y tu hwnt i unrhyw beth wyddom ni, a gadewch i ni ofyn os ydi Duw yn siarad â ni drwy'r dyddiau tywyll hyn. Oherwydd, welwch chi, tydi Duw'r Beibl ddim yn addo y bydd ein bywydau'n rhydd o drafferthion, ond mae yn addo bod gyda'i blant drwy ein holl dreialon.

Bendith Duw, arnoch.